Adroddiad ar

Gylch Meithrin y Graig

Llanfair Dyffryn Clwyd
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 2SD

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin y Graig

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin y Graig |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Ceri Lewis |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Samantha Lewis |
| Nifer y lleoedd | 34 |
| Ystod oedran y plant | 2.5-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 26 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener 08:00 – 15:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 19/04/2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Arolygiad cyntaf ers cofrestru |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 20/01/2026 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Cryfhau'r defnydd o arsylwi ac asesu parhaus i lywio addasu'r ddarpariaeth ar gyfer bodloni anghenion datblygiadol pob plentyn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus ac yn mwynhau cwmni eu ffrindiau a'r ymarferwyr wrth iddynt gymdeithasu. Maent yn gwneud dewisiadau'n hyderus ac yn manteisio ar y cyfle i symud yn eithaf rhydd rhwng yr ardaloedd. Er enghraifft, maent yn penderfynu os ydynt am chwarae dan do neu yn yr ardal awyr agored. Mae bron pob plentyn yn ymuno â grwpiau o ffrindiau yn ôl eu dymuniadau ac yn helpu eu hunain i adnoddau'n ofalus. Er enghraifft, maent yn mwynhau arbrofi gyda thoes, adeiladu gyda blociau neu reidio beiciau. Mae llawer o blant yn gyfforddus i ofyn am gymorth, er enghraifft wrth wisgo helmed neu baratoi ar gyfer sesiwn yn yr ysgol goedwig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd yn frwdfrydig ac yn setlo'n gyflym. Maent yn gyfarwydd â threfn y bore ac yn cyflawni tasgau annibynnol fel cadw eu cotiau a'u bagiau cyn hunangofrestru'n gynyddol hyderus. Maent yn ymdopi'n dda gyda ffarwelio a'u rhieni neu ofalwyr ac yn teimlo'n ddiogel a chartrefol yn y lleoliad. Mae llawer o blant yn hyderus i alw enwau'r ymarferwyr, fel y bo angen, sy'n atgyfnerthu ymdeimlad o berthyn. Maent yn cael boddhad wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hunaniaeth. Caiff hyn ei atgyfnerthu wrth iddynt edrych ar luniau ohonynt gyda'u teuluoedd yn y 'Llyfr Teulu', gan bwyntio'n frwdfrydig at eu teulu eu hunain. Mae mwyafrif y plant yn gyfforddus gydag ymwelwyr ac yn eu cynnwys yn eu chwarae.

Mae llawer o blant yn rhyngweithio'n dda. Maent yn parchu dyheadau plant eraill ac yn dysgu i rannu'n gynyddol ddeallus. Er enghraifft, mae plant wrth eu bodd yn cael cyfleoedd celf a chrefft gan aros eu tro i ddefnyddio glud. Maent yn cydweithio'n brysur i greu hylif hud yn y gegin fwd ac yn sgwrsio'n hapus am beth i'w ychwanegu i'r gymysgedd. Wrth wneud hyn, maent yn dewis a dethol offer fel tebot a sosbenni yn addas i gymysgu dŵr o liwiau gwahanol. Maent yn gwerthfawrogi eu perthnasoedd cynnes â'r ymarferwyr ac yn gwenu wrth dderbyn canmoliaeth ar ôl ateb cwestiynau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn egnïol ac yn mwynhau cymryd rhan. Maent yn weithgar yn eu chwarae ac yn elwa o gyfleoedd i archwilio, arbrofi a darganfod heb fod o dan bwysau amser. Er enghraifft, maent yn dyfalbarhau'n fwriadus wrth ddefnyddio offer megis morthwyl a phegiau golff i ryddhau pengwiniaid o flociau iâ. Mae ychydig o blant yn canolbwyntio am gyfnodau hirach wrth iddynt adeiladu lloches i anifeiliaid gan ddefnyddio siapiau magnetig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol cadarn, er enghraifft wrth fynd i'r tŷ bach a golchi a sychu eu dwylo heb gymorth. Maent yn fedrus wrth ddefnyddio cyllell i daenu menyn ar dost, yn arllwys llaeth i gwpan ac yn golchi eu llestri eu hunain fel rhan o drefn amser snac.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn blaenoriaethu eu hiechyd a'u diogelwch yn llwyddiannus. Maent yn darparu gofal a chymorth da. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i ddiogelu plant, maent wedi cwblhau hyfforddiant priodol, ac yn arddangos dealltwriaeth gadarn o'r polisïau a'r gweithdrefnau. Mae ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf priodol ac yn cadw cofnodion cywir o ddamweiniau a digwyddiadau. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau cadarn yn ystod cyfnodau snac ac yn annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd. Maent yn darparu bwydlen amrywiol, iachus ac yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau. Yn ogystal, mae ganddynt weithdrefnau clir i weinyddu meddyginiaeth. Mae ymarferwyr yn sicrhau urddas a phreifatrwydd llwyr wrth ddilyn polisi newid cewynnau ac yn cofnodi'r arferion hyn yn ddyddiol. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae ganddynt rwydweithiau effeithiol a gweithdrefnau pwrpasol i'w dilyn, pan fo angen. Mae gan ymarferwyr system gofrestru drwyadl a threfnus, ynghyd â chofnodion caniatâd priodol.

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus i atgyfnerthu gwerthoedd caredig. Maent yn trin y plant â gofal a pharch ac yn fodelau rôl da wrth ryngweithio'n gynnes. Mae ymarferwyr yn canmol y plant yn gyson ac yn eu cefnogi i ddyfalbarhau â gweithgareddau. Er enghraifft, wrth dorri papur â siswrn, maent yn annog y plant i ganolbwyntio ac i ddal y siswrn yn gywir. O ganlyniad, mae plant yn dilyn cyfarwyddiadau'r ymarferwyr yn gyson. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn cymryd eu hamser i wrando ac egluro mewn modd tyner ac yn deall pryd i ymyrryd i gefnogi plant. Er enghraifft, pan mae plant yn gofyn am gymorth, mae ymarferwyr wrth law i gamu i mewn a chynnig cefnogaeth, pan fo angen. Maent yn hybu'r iaith Gymraeg yn barhaus drwy sgwrsio, canu'n gyson a chyflwyno patrymau iaith yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion a'u dymuniadau unigol. Maent yn angerddol am eu gwaith ac yn gweithio'n ddiwyd i ddarparu profiadau amrywiol er mwyn cymell y plant i ddysgu drwy wneud. Er enghraifft, maent yn addysgu'r plant i ddeall eu teimladau eu hunain yn ystod amser cylch. Mae ymarferwyr yn cofnodi arsylwadau o gynnydd plant yn y llyfrau 'Taith Dysgu' ac yn arddangos eu llwyddiannau ar 'Cwlwm Balch'.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r ymarferwyr yn meithrin perthynas gref â'r plant ac yn creu awyrgylch cynnes a gofalgar. O ganlyniad, mae'r plant yn mwynhau mynychu'r lleoliad, yn setlo'n gyflym ac yn awyddus i archwilio ac arbrofi yn syth ar ôl cyrraedd.

Mae'r ymarferwyr yn ystyrlon o lais y plant ac yn llwyddo i gynllunio profiadau dysgu effeithiol i hybu diddordeb y rhan fwyaf o blant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a'r ffordd mae plant yn dysgu trwy chwarae a darganfod. Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn sensitif a chadarn. Maent yn annog rhannu, tacluso ac yn ymateb i aflonyddwch mewn modd gofalgar. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd addas i blant wneud dewisiadau, datrys problemau a chymryd risgiau priodol. Er enghraifft, maent yn ychwanegu adnoddau fel cyllyll i dorri ffrwythau yn ystod amser byrbryd a sicrhau cyfleoedd addas i blant ddringo a chydbwyso ar foncyff tra byddant allan yn chwarae.

Mae dulliau addysgu effeithiol ymarferwyr yn cymell plant i ymgysylltu'n dda yn eu dysgu. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth plant. Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau sy'n annog plant i weithio gyda'i gilydd yn bwrpasol. datblygu empathi a'u medrau cymdeithasol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn annog plant i gydweithio wrth iddynt gasglu dail a brigau i wneud cawl i'r ceirw yn yr ardal goedwig.

Mae mwyafrif yr ymarferwyr yn defnyddio asesiadau ac arsylwadau yn rheolaidd i nodi'r hyn y mae'r plant wedi'i ddysgu, i osod targedau ac i ddangos cynnydd dros amser yn bwrpasol. Er hyn, nid yw ymarferwyr bob amser yn addasu'r ddarpariaeth i ymateb i anghenion pob plentyn a llywio'r camau nesaf ar gyfer eu datblygiad yn ddigon effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn gyson dda. Trwy ddulliau trochi pwrpasol, maent yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i gyfoethogi geirfa plant wrth chwarae ochr yn ochr, gan ddefnyddio tafodiaith naturiol yr ardal. Maent yn annog y plant i ganu rhigymau Cymraeg wrth chwarae offerynnau a defnyddio'r iaith yn fwriadus yn eu gweithgareddau, wrth adrodd rhifau a defnyddio cyfarchion syml. Mae'r mewnbwn rheolaidd hwn yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau bod y plant yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o'r Gymraeg, a'u medrau siarad, yn gynyddol hyderus.

Mae ymarferwyr yn annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n datblygu eu medrau llythrennedd yn llwyddiannus. Er enghraifft, caiff plant eu hannog i siarad am y pengwiniaid yn sownd yn y rhew a chynllunio sut i'w rhyddhau, fel rhan o ddathliadau diwrnod y pengwiniaid. Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod dda o gyfleoedd i'r plant ddechrau creu marciau ac i ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Mae ymarferwyr yn

datblygu medrau rhifedd plant yn effeithiol ac yn herio plant yn briodol i fesur gwrthrychau o amgylch y lleoliad gan ddefnyddio tâp mesur.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau corfforol yn gadarn. Mae ymarferwyr yn darparu amrediad o adnoddau pwrpasol sy'n caniatáu i'r plant ddatblygu medrau cydbwyso corfforol. O ganlyniad, maent yn hyderus wrth ddefnyddio'r beiciau cydbwyso a llithro i lawr y llithren. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddatblygu medrau TGCh ac annibyniaeth y plant. Maent yn darparu ystod o gyfleoedd effeithiol i'r plant ddatblygu eu medrau creadigol, er enghraifft wrth ddefnyddio amrywiaeth o greonau a phaent o wahanol liwiau i greu hunanbortreadau. Mae hyn yn adeiladu hyder y plant i fynegi eu hunain mewn gwahanol gyd-destunau.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau buddiol i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol, ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru a'u cynefin yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio profiadau pwrpasol sy'n helpu plant i ddeall eu cymuned leol ac yn trefnu ymweliadau i'r llyfrgell a'r eglwys i greu addurniadau'r cynhaeaf. Mae hyn yn meithrin ymdeimlad o berthyn ac yn dechrau cyfoethogi dealltwriaeth y plant o'u hamgylchedd. Yn ogystal, maent yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddysgu am ddathliadau a gwyliau crefyddol fel Diwali.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân, ac mae ganddynt drefniadau cadarn i reoli mynediad i'r safle. Mae ganddynt weithdrefnau clir sy'n sicrhau bod ymwelwyr yn mewngofnodi'n brydlon ac mae'r holl gofnodion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd a bod offer diogelwch, megis offer diffodd tân, yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg pwrpasol ac yn eu hadolygu'n rheolaidd. Maent yn cadw cofrestr o blant ac ymarferwyr, ac yn sicrhau bod y cymarebau ymarferwyr i blant yn briodol. Mae arweinwyr yn arddangos gwybodaeth berthnasol am yr ymarferwyr, polisïau a gweithdrefnau diogelu mewn mannau allweddol o amgylch y lleoliad.

Mae arweinwyr yn cynnig amgylchedd hunangynhwysol o ansawdd da sy'n groesawgar a chynnes. Maent yn darparu toiled addas a chyfleusterau newid cewynnau preifat. Gwnânt ddefnydd effeithiol o'r lleoliad a chyfleusterau'r safle. Mae mynediad i'r ardal awyr agored yn galluogi chwarae parhaus a diogel i blant. Yn y brif ystafell, mae arweinwyr yn darparu amgylchedd agored lle mae celfi addas ac unedau storio llawn adnoddau yn hybu annibyniaeth y plant. Maent yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddatblygu chwilfrydedd y plant. Er enghraifft, maent yn cynnig profiadau dysgu cyffrous megis ardaloedd chwarae rôl, ardal adeiladu, yn ogystal â chornel glyd i ymlacio neu ddarllen llyfr. Mae'r ardal awyr agored yn cynnig profiadau ysgogol i blant. Er enghraifft, mae'r ardaloedd cysgodol ac arwynebau amrywiol yn cynnig heriau a chyfleoedd buddiol i blant gymryd risg a meithrin

medrau corfforol. At ei gilydd, mae arweinwyr yn cynnig rhyddid i blant symud yn annibynnol o amgylch eu hamgylchedd yn ôl eu diddordebau ac yn sicrhau cydbwysedd da rhwng hyrwyddo diogelwch y plant a'u cefnogi i fentro.

Mae arweinwyr yn cynnig adnoddau o safon dda sy'n addas ar gyfer cam datblygiad ac oedran y plant. Maent yn sicrhau cyfleoedd helaeth i blant ddatblygu eu medrau, er enghraifft drwy ddarganfod, cyffwrdd ac archwilio concyrs yn yr ardal goedwig. Yn yr un modd, ceir cyfleoedd buddiol i blant ddefnyddio adnoddau go iawn, megis llestri yn yr ardal chwarae rôl, gan ddatblygu eu dychymyg, eu hyder a'u medrau cymdeithasol. Mae arweinwyr yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn effeithiol drwy ddarparu llyfrau ac adnoddau i blant fynegi eu teimladau. Yn ogystal, maent yn cynnig adnoddau pwrpasol fel doliau a phypedau i gynorthwyo plant i ddysgu am amrywiaeth ac am wahanol ddiwylliannau. Mae'r cyfleoedd i fynd am dro yn yr ardal leol i gasglu ffrwythau yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'u cymuned yn llwyddiannus.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da

Mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir a chadarn sy'n gyrru gwelliant parhaus yn y lleoliad. Maent yn cydweithio'n dda i roi strategaethau effeithiol ar waith sy'n canolbwyntio ar ehangu'r ddarpariaeth, cryfhau'r Gymraeg a gwella deilliannau ar gyfer plant. Trwy eu hagweddau cadarnhaol a'u harferion cyson, mae arweinwyr yn creu amgylchedd dysgu cynnes a gofalgar sy'n darparu profiadau pwrpasol ac yn hyrwyddo datblygiad plant yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn frwdfrydig ac yn angerddol am waith y lleoliad. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain a'r ymarferwyr. Mae gan yr arweinydd berthynas waith lwyddiannus ag aelodau'r pwyllgor rheoli, ac mae trafodaethau a chyfarfodydd rheolaidd rhyngddynt yn cyfrannu'n werthfawr at gynnig darpariaeth a gofal o ansawdd da. Ceir datganiad o ddiben clir sy'n rhoi darlun cywir o'r lleoliad, gan alluogi rhieni a gofalwyr i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch addasrwydd y lleoliad ar gyfer eu plentyn.

Mae arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth brofiadol ac effeithiol gan ymateb yn hyblyg i heriau. Maent yn gweithredu systemau recriwtio diogel. Mae'r pwyllgor ac arweinwyr yn trefnu goruchwyliaeth staff ac arfarniadau blynyddol priodol sy'n nodi targedau defnyddiol ar gyfer gwella. Mae gan y lleoliad amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau cyfredol sy'n cefnogi ymarferwyr yn effeithiol yn eu gwaith.

Mae gan arweinwyr brosesau hunanwerthuso cadarn sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar amrediad eang o dystiolaeth a mewnbwn gan bob aelod o staff. Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn briodol ac yn cydweithio â'r staff er mwyn gwneud gwelliannau i'r ddarpariaeth. Maent yn gweithio'n llwyddiannus gydag athrawes

ymgynghorol yr awdurdod lleol ac asiantaethau eraill wrth osod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn addasu a gwella'r ddarpariaeth yn gyson er mwyn cynnig profiadau ystyrlon i ddiwallu anghenion y plant. Mae arweinwyr yn rhannu'r camau gweithredu'n synhwyrol gydag ymarferwyr, gan ystyried y dulliau mwyaf effeithiol o gyflawni eu blaenoriaethau.

Mae'r arweinydd yn neilltuo cyllid priodol drwy wneud defnydd effeithiol o grantiau lleol a chenedlaethol sy'n arwain at welliant yn ansawdd y ddarpariaeth. Enghraifft o hyn yw'r buddsoddiad yn yr ardal allanol i wella addasrwydd hwyneb y tir. Mae hyn, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau corfforol y plant.

Mae gan arweinwyr berthynas agos â rhieni a gofalwyr. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol drwy gyfryngau cymdeithasol, sgyrsiau rheolaidd ac ar lwyfannau digidol pwrpasol i rannu lluniau, profiadau ac i hysbysu am ddigwyddiadau a datblygiadau perthnasol. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth gyfredol fuddiol am gynnydd a lles eu plant.

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol â'r ysgol leol ac mae hyn yn paratoi'r plant yn addas ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Er enghraifft, mae'r plant yn cael cymdeithasu a bwyta eu cinio gyda phlant ar safle'r ysgol yn ddyddiol. O ganlyniad, mae trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod y plant yn trosglwyddo i'r cam nesaf yn eu haddysg yn llwyddiannus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/03/2026